
ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales
Bwletin Ystadegol
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Yr iaith Gymraeg mewn Addysg Uwch, 2020/21

28 Gorffennaf 2022
SB 19/2022

Mae'r bwletin hwn yn darparu gwybodaeth am fyfyrwyr mewn addysg uwch sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Mae hefyd yn ymdrin â staff addysg uwch sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac athrawon dan hyfforddiant sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Myfyrwyr mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru yn ôl faint o gredydau a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg[(a)] a'r flwyddyn**




a) Addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach wedi'i heithrio.

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA drwy Lywodraeth Cymru*

- O'r 5,740 o fyfyrwyr a astudiodd o leiaf 5 o gredydau drwy'r Gymraeg, astudiodd 2,630 o leiaf 40 credyd yn Gymraeg; astudiodd 1,430 o leiaf 80 credyd yn Gymraeg; ac astudiodd 835 120 o gredydau o leiaf drwy'r Gymraeg.
- Derbyniodd 1,305 yn fwy o fyfyrwyr rywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2020/21 o'i gymharu â 2019/20. Gwelwyd cynnydd mawr yn nifer myfyrwyr Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant oedd yn cymryd o leiaf 5 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2015/16, yn rhannol oherwydd gwell cyhoeddusrwydd i'r cyrsiau Cymraeg byr ar eu campws yng Ngholeg Sir Gâr. Mae'r Brifysgol wedi nodi bod y ddarpariaeth hon wedi lleihau ers hynny ac mae hyn yn cyfrif am lawer o'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn dilyn y cynnydd mawr yn 2015/16.
- Mae nifer y staff sy'n gallu addysgu drwy'r Gymraeg wedi cynyddu 35% rhwng 2011/12 a 2019/20.

## Ynglŷn â'r bwletin hwn

Daw'r data sydd wedi'u cynnwys yma o Gofnod Myfyrwyr a Chofnod Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Oni nodir yn wahanol, mae myfyrwyr o Gymru sydd wedi'u cofrestru yn y Brifysgol Agored ac cofrestradau addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach wedi'u cynnwys yn y data, ac mae'r ffigurau'n ymwneud â blwyddyn academaidd 2020/21. Nid yw cofrestriadau addysg uwch mewn darparwyr amgen wedi'u cynnwys yn y data.

## Yn y bwletin hwn

Cefndir y polisi 2
Myfyrwyr mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru 4
Pynciau modiwlau 10
Siaradwyr Cymraeg 12
Addysg Gychwynnol i Athrawon 14
Staff 16
Methodoleg 20

Ystadegydd: Abi Woodham 0300 251 053 addysguwchachyllidmyfyrwyr.yst@llyw.cymru

Ymholiadau gan y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau gan y cyhoedd : 0300 025 5050 Twitter: @YstadegauCymru

## Cefndir y polisi

### Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweithio gyda phrifysgolion ledled Cymru i ddatblygu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr. Mae'n cefnogi'r broses o ddatblygu darpariaeth a darlithwyr cyfrwng Cymraeg, ac yn cynnig ysgoloriaethau i alluogi israddedigion ac uwchraddedigion i astudio cyrsiau addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Targedau

Yn y bwletin hwn:

- dim ond y ffigurau o sefydliadau addysg bellach o 2016/17 ymlaen a gaiff eu cynnwys;
- defnyddir y nifer sydd wedi cofrestru yn hytrach na chyfrif pennau;
- mae'r ffigurau'n cynnwys pob modiwl sy'n cael ei astudio mewn blwyddyn, yn hytrach na phob modiwl a gychwynnwyd mewn blwyddyn.

Oherwydd hyn, ni ellir defnyddio'r bwletin hwn i asesu perfformiad yn erbyn y targedau. Er hyn, mae'r targedau'n gyd-destun defnyddiol ac yn rhoi rhyw syniad ynglŷn â chyfeiriad a maint y newid.

Ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddodd CCAUC fesurau perfformiad ar gyfer addysg uwch yn ystod cyfnod ei strategaeth gorfforaethol gyfredol, 2017-20. Mae'r rhain yn cynnwys nifer y myfyrwyr ar gyrsiau addysg uwch sy'n astudio o leiaf 5 credyd ac o leiaf 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg y flwyddyn.

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyllido'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ers 2017-18. Mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 5 a 40 credyd yn Gymraeg yn dal i gael ei fonitro yn erbyn targedau penodol.

### Cymraeg 2050

Cyhoeddwyd Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ym mis Gorffennaf 2017. Yn ogystal â thargedau i gynyddu nifer y dysgwyr sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg a chamau i'w galluogi i wneud cynnydd yn eu haddysg orfodol ac ôl-orfodol drwy gyfrwng y Gymraeg, mae Cymraeg 2050 hefyd yn cynnwys targedau i gynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

### Staff

Mae'r adran hon yn cynnwys nifer y staff academaidd sy'n cael ei gyflogi mewn prifysgolion yng Nghymru, ac yn nodi a ydynt yn addysgu, neu'n gallu addysgu, drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Ar y dechrau, roedd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ariannu swyddi academaidd er mwyn hyrwyddo addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ers 2019/20, mae'r Coleg yn cefnogi sefydliadau â grantiau penodol i ddatblygu darpariaeth addysg uwch, gan gynnwys cynllunio o ran staff.

## Y swm sy’n cael ei astudio mewn credydau

Cyflwynir y swm sy’n cael ei astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn credydau, ac nid fel canran o addysg y myfyriwr. Mae hyn yn rhoi gwell darlun o wir swm y dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae credydau hefyd yn ein galluogi i gymharu’n well â’r targedau. Ceir rhagor o wybodaeth yn y Diffiniadau.

## Y  Brifysgol Agored

Mae myfyrwyr o Gymru sy’n mynychu’r Brifysgol Agored yn cael eu cynnwys erbyn hyn. Mae’r rhan fwyaf o ddatganiadau ystadegol addysg uwch Llywodraeth Cymru yn cynnwys myfyrwyr y Brifysgol Agored, ac maent wedi cael eu cynnwys yn y targedau.

## Cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn mewn data pynciau

Mae data pynciau yn cael eu hadrodd ar ffurf cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn (FPE) yn hytrach na chyfrifiadau Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE). Mae’n haws cymharu cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn â’r ffigurau eraill yn y bwletin.

## Cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn mewn data staff

Mae ffigurau staff yn cael eu hadrodd yn awr ar ffurf cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn. Cyn hyn, oni nodid yn wahanol, roeddent yn cael eu hadrodd mewn niferoedd crai. Byddai hyn yn golygu bod staff sydd â chontractau mewn mwy nag un ardal yn cael eu cyfrif ddwywaith.

## Darparwyr addysg uwch

Mae data ar gyfer darparwyr addysg uwch yn cynnwys sefydliadau addysg uwch, myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn y Brifysgol Agored, a chyrsiau addysg uwch a astudir mewn sefydliadau addysg bellach, oni nodir yn wahanol. Dim ond o 2016/17 ymlaen y mae data ar gyfer cyrsiau addysg uwch a astudir mewn sefydliadau addysg bellach ar gael felly er mwyn sicrhau bod cyfresi amser yn gyson, mae rhai siartiau ond yn cynnwys data gan sefydliadau addysg uwch.

## Adran A: Myfyrwyr mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru


Mae'r adran hon yn ymdrin â myfyrwyr astudiodd mewn darparwr addysg uwch yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae myfyrwyr yn cael eu gwahanu nawr yn ôl faint o gredydau y gwnaethant eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg y flwyddyn honno. Cyfrifir faint yn union y mae'r myfyrwyr yn ei astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Pe bai myfyriwr yn astudio hanner modiwl 20 credyd yn Gymraeg, byddai hynny'n cael ei gyfrif fel astudio 10 credyd yn Gymraeg. Mae'r categorïau *rhai credydau, o leiaf 5 credyd, o leiaf 40 credyd, o leiaf 80 credyd ac o leiaf 120 o gredydau* hefyd yn gorgyffwrdd. Mae pawb sy'n astudio o leiaf 40 credyd yn Gymraeg hefyd yn cael eu cynnwys yn y categori astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg.

Gwelwyd gostyngiad mawr yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 5 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg dros y pum mlynedd ddiwethaf. Mae'r rhan fwyaf o'r gostyngiad hwn i'w weld ym Mhrifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant, sydd wedi nodi bod eu darpariaeth o ran cyrsiau Cymraeg byr wedi lleihau ers 2015/16.

Mae dadansoddiad pellach o'r data i'w weld ar StatsCymru.

**Siart A.1: Myfyrwyr sy'n derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru, yn ôl lefel a dull astudio (a)(b)**




*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA drwy Lywodraeth Cymru*

(a) Nid yw'n cynnwys myfyrwyr y Brifysgol Agored.
(b) Mae nifer bach o fyfyrwyr o Brifysgol Casnewydd/De Cymru heb eu cynnwys yn ffigurau 2011/12 a 2013/14.

[Gweld y data]

- Mae nifer y myfyrwyr llawn amser sy'n derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg wedi amrywio ar gyfer myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig ers 2008/09. Fodd bynnag, gwelwyd

gostyngiad yn 2019/20 ac wedyn cynnydd yn 2020/21 yn achos myfyrwyr israddedig (cynnydd o 23% o gymharu â 2018/19) ac ôl-raddedig (cynnydd o 58% o gymharu â 2018/19).

- Dylid edrych ar y gostyngiad yn nifer yr israddedigion rhan-amser sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyd-destun gostyngiad cyson yn nifer yr israddedigion rhan-amser sy'n astudio drwy gyfrwng unrhyw iaith mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru (ac eithrio'r Brifysgol Agored a sefydliadau addysg bellach) ers 2010/11.
- Cyrhaeddodd nifer yr myfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser uchafbwynt yn 2014/15 o ganlyniad i'r radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol a oedd yn cael ei chynnig am ddim i Athrawon Newydd Gymhwyso.
- Mae nifer yr graddedigion rhan-amser sy'n derbyn rhywfaint o'u haddysg yn Gymraeg wedi cynyddu eleni ond yn parhau'n debyg i'r niferoedd yn 2012/13.

## Tabl A.1: Faint a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg gan fyfyrwyr mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru (a)

*Cofrestriadau a chanrannau*

| Cofrestriadau | 2012/13 | 2013/14 (a) | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhywfaint o addysg gyfrwng Cymraeg | 5,560 | 5,260 | 6,445 | 7,780 | 6,870 | 6,205 | 5,940 | 5,635 | 6,940 |
| (c) Sydd yn hafal i | | | | | | | | | |
| o leiaf 5 credyd yn Gymraeg | 5,115 | 5,000 | 5,875 | 7,070 | 5,885 | 5,315 | 5,575 | 4,740 | 5,740 |
| o leiaf 40 credyd yn Gymraeg | 2,340 | 2,430 | 2,435 | 2,800 | 2,265 | 2,410 | 2,510 | 2,510 | 2,630 |
| o leiaf 80 credyd yn Gymraeg | 1,390 | 1,410 | 1,365 | 1,370 | 1,320 | 1,300 | 1,340 | 1,415 | 1,430 |
| o leiaf 120 credyd yn Gymraeg | 870 | 885 | 885 | 825 | 690 | 710 | 710 | 780 | 835 |
| Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg | 131,955 | 131,885 | 126,530 | 120,905 | 121,135 | 121,720 | 124,565 | 129,155 | 136,930 |
| Pob cofrestriad | 137,520 | 137,145 | 132,975 | 128,685 | 128,005 | 127,925 | 130,510 | 134,790 | 143,870 |
| *Canrannau (%)* | | | | | | | | | |
| Rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg | *4%* | *4%* | *5%* | *6%* | *5%* | *5%* | *5%* | *4%* | *5%* |
| o leiaf 5 credyd yn Gymraeg | *4%* | *4%* | *4%* | *5%* | *5%* | *4%* | *4%* | *4%* | *4%* |
| o leiaf 40 credyd yn Gymraeg | *2%* | *2%* | *2%* | *2%* | *2%* | *2%* | *2%* | *2%* | *2%* |
| o leiaf 80 credyd yn Gymraeg | *1%* | *1%* | *1%* | *1%* | *1%* | *1%* | *1%* | *1%* | *1%* |
| o leiaf 120 credyd yn Gymraeg | *1%* | *1%* | *1%* | *1%* | *1%* | *1%* | *1%* | *1%* | *1%* |
| Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg | *96%* | *96%* | *95%* | *94%* | *95%* | *95%* | *95%* | *96%* | *95%* |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA drwy Lywodraeth Cymru*

(a) Addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach wedi'i heithrio.

(b) Adroddodd Prifysgol Casnewydd, sydd bellach yn rhan o Brifysgol De Cymru, am ragor o fyfyrwyr a oedd yn cael rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg nad ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl. Y niferoedd yw 74 yn 2013/14.

(c) Mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio rhai credydau yn Gymraeg yn cynnwys nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 5, 40, 80 a 120 credyd yn Gymraeg. Yn dilyn y patrwm hwn, mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg yn cynnwys myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 40, 80 a 120 credyd yn Gymraeg. Mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 40 credyd yn Gymraeg yn cynnwys myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 80 a 120 credyd yn Gymraeg. Mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 80 credyd yn Gymraeg yn cynnwys myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 120 credyd yn Gymraeg.

[Gweld y data]

- Yn 2020/21, astudiodd 5,740 o fyfyrwyr mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru (ac eithrio'r rheini a gofrestrodd ar gyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach) o leiaf 5 credyd yn Gymraeg. O'r rhain, astudiodd 2,630 o leiaf 40 credyd yn Gymraeg, astudiodd 1,430 o'r rhain o leiaf 80 credyd ac astudiodd 835 o'r rhain o leiaf 120 credyd.
- Mae nifer cyffredinol y myfyrwyr sy'n astudio rhai credydau yn Gymraeg wedi cynyddu o 5,635 yn 2019/20 i 6,940 yn 2020/21. Dylid ystyried y cynnydd hwn ochr yn ochr â'r cynnydd cyffredinol mewn cofrestriadau. Mae cofrestriadau sy'n derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg fel cyfran o'r holl gofrestriadau wedi cynyddu ychydig o gymharu â'r llynedd (5% o'r holl gofrestriadau yn 2020/21 o gymharu â 4% o'r holl gofrestriadau yn 2019/20).

**Tabl A.2: Addysgu yn Gymraeg, yn ôl darparwr addysg uwch, 2020/21**

*Cofrestriadau a chanrannau*

| Cofrestriadau | Rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg | o leiaf 5 credyd yn Gymraeg | o leiaf 40 credyd yn Gymraeg | o leiaf 80 credyd yn Gymraeg | o leiaf 120 credyd yn Gymraeg | Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg | Pob cofrestriad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Bangor | 1,485 | 1,445 | 960 | 665 | 310 | 8,215 | 9,705 |
| Prifysgol Glyndŵr | 10 | 5 | 0 | 0 | 0 | 7,475 | 7,485 |
| Prifysgol Aberystwyth | 380 | 375 | 305 | 155 | 50 | 7,660 | 8,040 |
| Drindod Dewi Sant | 3,510 | 2,470 | 540 | 240 | 210 | 11,285 | 14,795 |
| Prifysgol Abertawe | 580 | 535 | 225 | 40 | 30 | 20,885 | 21,465 |
| Prifysgol De Cymru | 100 | 100 | 60 | 15 | 10 | 23,050 | 23,150 |
| Prifysgol Caerdydd | 380 | 380 | 260 | 110 | 65 | 33,125 | 33,510 |
| Prifysgol Fetropolitan Caerdydd | 330 | 290 | 250 | 200 | 155 | 11,105 | 11,435 |
| Brifysgol Agored | 160 | 135 | 25 | 0 | 0 | 14,130 | 14,290 |
| Pob Sefydliad Addsyg Uwch | 6,940 | 5,740 | 2,630 | 1,430 | 835 | 136,930 | 143,870 |
| Grwp Llandrillo Menai | 280 | 280 | 195 | 100 | 60 | 770 | 1,050 |
| Grwp NPTC | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 195 | 195 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 65 | 65 |
| Pob sefydliad | 7,220 | 6,015 | 2,825 | 1,530 | 895 | 137,960 | 145,175 |
| *Canrannau (%)* | | | | | | | |
| Prifysgol Bangor | *15%* | *15%* | *10%* | *7%* | *3%* | *85%* | *100%* |
| Prifysgol Glyndŵr | *0%* | *0%* | *0%* | *0%* | *0%* | *100%* | *100%* |
| Prifysgol Aberystwyth | *5%* | *5%* | *4%* | *2%* | *1%* | *95%* | *100%* |
| Drindod Dewi Sant | *24%* | *17%* | *4%* | *2%* | *1%* | *76%* | *100%* |
| Prifysgol Abertawe | *3%* | *2%* | *1%* | *0%* | *0%* | *97%* | *100%* |
| Prifysgol De Cymru | *0%* | *0%* | *0%* | *0%* | *0%* | *100%* | *100%* |
| Prifysgol Caerdydd | *1%* | *1%* | *1%* | *0%* | *0%* | *99%* | *100%* |
| Prifysgol Fetropolitan Caerdydd | *3%* | *3%* | *2%* | *2%* | *1%* | *97%* | *100%* |
| Brifysgol Agored | *1%* | *1%* | *0%* | *0%* | *0%* | *99%* | *100%* |
| Pob Sefydliad Addsyg Uwch | *5%* | *4%* | *2%* | *1%* | *1%* | *95%* | *100%* |
| Grwp Llandrillo Menai | *27%* | *27%* | *19%* | *10%* | *6%* | *73%* | *100%* |
| Grwp NPTC | *0%* | *0%* | *0%* | *0%* | *0%* | *100%* | *100%* |
| Coleg Gŵyr Abertawe | *0%* | *0%* | *0%* | *0%* | *0%* | *100%* | *100%* |
| Pob sefydliad | *5%* | *4%* | *2%* | *1%* | *1%* | *95%* | *100%* |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA drwy Lywodraeth Cymru*

[Gweld y data]

- Astudiodd 1% o'r myfyriwr mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru 120 credyd neu ragor yn Gymraeg yn 2020/21. Roedd y gyfran uchaf yng Ngrŵp Llandrillo Menai (6%) ac wedyn Prifysgol Bangor (3%).
- O bob sefydliad addysg uwch, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant oedd â'r nifer mwyaf o fyfyrwyr (3,510) a'r gyfran fwyaf o'i fyfyrwyr (24%) a dderbyniodd rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r nifer hwn wedi cynyddu 4 o bwyntiau canran, i fyny o 20% yn 2019/20.

- Prifysgol Glyndŵr a Phrifysgol De Cymru oedd y darparwyr addysg uwch â'r gyfran leiaf (0%) o fyfyrwyr a dderbyniodd rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Roedd Prifysgol Bangor a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant gyda'i gilydd yn gyfrifol am bron i ddau draean (69%) o'r holl fyfyrwyr a dderbyniodd rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Ar hyn o bryd, gwyddom fod yna anghysondeb yn y ffordd y mae darparwyr addysg uwch yn cofnodi data am fodiwlau cyfrwng Cymraeg ar ffurflen gofnodi HESA, o ran eu diffiniad o fodiwl cyfrwng Cymraeg ac wrth gyfrifo'r ganran o'r modiwl sy'n cael ei haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn destun ymchwil ac mae CCAUC, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a darparwyr yn trafod y mater, gyda'r nod o sefydlu canllawiau clir ynghylch sut i gofnodi'r holl ddata am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar ffurflen gofnodi HESA er mwyn gwella ansawdd y data i'r dyfodol.

**Tabl A.3: Dull astudio myfyrwyr mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru, yn ôl faint a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg, 2020/21**

*Cofrestriadau a chanrannau*

| Cofrestriadau | Rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg | o leiaf 5 credyd yn Gymraeg | o leiaf 40 credyd yn Gymraeg | o leiaf 80 credyd yn Gymraeg | o leiaf 120 credyd yn Gymraeg | Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg | Pob Cofrestriad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llawn-amser | 6,160 | 5,295 | 2,675 | 1,510 | 890 | 99,125 | 105,285 |
| Rhan-amser ac arall | 1,060 | 720 | 155 | 20 | 5 | 38,835 | 39,895 |
| Pob dull | 7,220 | 6,015 | 2,825 | 1,530 | 895 | 137,960 | 145,175 |
| *Canrannau (%)* | | | | | | | |
| Llawn-amser | *6%* | *5%* | *3%* | *1%* | *1%* | *94%* | *100%* |
| Rhan-amser ac arall | *3%* | *2%* | *0%* | *0%* | *0%* | *97%* | *100%* |
| Pob dull | *5%* | *4%* | *2%* | *1%* | *1%* | *95%* | *100%* |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA drwy Lywodraeth Cymru*

[Gweld y data]

- Derbyniodd cyfran uwch o fyfyrwyr llawn-amser rywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg (6%), o gymharu â myfyrwyr rhan-amser (3%).

**Tabl A.4: Lefel astudio myfyrwyr mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru, yn ôl faint a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg, 2020/21**

*Cofrestriadau a chanrannau*

| Cofrestriadau | Rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg | o leiaf 5 credyd yn Gymraeg | o leiaf 40 credyd yn Gymraeg | o leiaf 80 credyd yn Gymraeg | o leiaf 120 credyd yn Gymraeg | Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg | Pob cofrestriad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymchwil ôl-radd | 45 | 35 | 25 | 20 | 15 | 4,380 | 4,425 |
| Cwrs ôl-radd a addysgir | 980 | 845 | 435 | 330 | 290 | 28,680 | 29,660 |
| Gradd gyntaf | 5,020 | 4,350 | 2,120 | 1,055 | 490 | 85,655 | 90,675 |
| Israddedig eraill | 1,170 | 785 | 245 | 125 | 105 | 19,245 | 20,415 |
| Addysg Uwch | 7,220 | 6,015 | 2,825 | 1,530 | 895 | 137,960 | 145,175 |
| *Canrannau (%)* | | | | | | | |
| Ymchwil ôl-radd | *1%* | *1%* | *1%* | *0%* | *0%* | *99%* | *100%* |
| Cwrs ôl-radd a addysgir | *3%* | *3%* | *1%* | *1%* | *1%* | *97%* | *100%* |
| Gradd gyntaf | *6%* | *5%* | *2%* | *1%* | *1%* | *94%* | *100%* |
| Israddedig eraill | *6%* | *4%* | *1%* | *1%* | *1%* | *94%* | *100%* |
| Addysg Uwch | *5%* | *4%* | *2%* | *1%* | *1%* | *95%* | *100%* |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA drwy Lywodraeth Cymru*

[Gweld y data]

- Y gyfran fwyaf o fyfyrwyr a dderbyniodd rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac a astudiodd o leiaf 5 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg oedd myfyrwyr yn y categorïau Gradd gyntaf ac Israddedig eraill. Myfyrwyr gradd gyntaf oedd hefyd â'r gyfran uchaf o fyfyrwyr a astudiodd o leiaf 40 credyd drwy'r Gymraeg.

### Tabl A.5: Rhyw myfyrwyr mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru, yn ôl faint a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg, 2020/21

*Cofrestriadau a chanrannau*

| Cofrestriadau | Rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg | o leiaf 5 credyd yn Gymraeg | o leiaf 40 credyd yn Gymraeg | o leiaf 80 credyd yn Gymraeg | o leiaf 120 credyd yn Gymraeg | Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg | Pob cofrestriad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwrywaidd | 2,435 | 1,855 | 705 | 340 | 190 | 60,190 | 62,625 |
| Benywaidd | 4,775 | 4,150 | 2,120 | 1,190 | 705 | 77,480 | 82,255 |
| Personau | 7,220 | 6,015 | 2,825 | 1,530 | 895 | 137,960 | 145,175 |
| *Canrannau (%)* | | | | | | | |
| Gwrywaidd | *4%* | *3%* | *1%* | *1%* | *0%* | *96%* | *100%* |
| Benywaidd | *6%* | *5%* | *3%* | *1%* | *1%* | *94%* | *100%* |
| Personau | *5%* | *4%* | *2%* | *1%* | *1%* | *95%* | *100%* |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA drwy Lywodraeth Cymru*

[Gweld y data]

- Roedd mwy o fenywod yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg nag o wrywod. Roedd 6% o fenywod yn derbyn rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg o gymharu â 4% o ddynion.

### Tabl A.6: O ble mae myfyrwyr mewn darparwyr addysg uwch Cymru yn hanu, 2020/21

*Cofrestriadau*

| Cofrestriadau | Hanu o Gymru | Ddim yn hanu o Gymru | Pob cofrestriad |
|---|---|---|---|
| Rhywfaint o addysg gyfrwng Cymraeg | 6,570 | 650 | 7,220 |
| o leiaf 5 credyd yn Gymraeg | 5,555 | 460 | 6,015 |
| o leiaf 40 credyd yn Gymraeg | 2,780 | 45 | 2,825 |
| o leiaf 80 credyd yn Gymraeg | 1,515 | 15 | 1,530 |
| o leiaf 120 credyd yn Gymraeg | 890 | 5 | 895 |
| Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg | 69,600 | 68,350 | 137,960 |
| Pob cofrestriad | 76,170 | 69,000 | 145,175 |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA drwy Lywodraeth Cymru*

[Gweld y data]

Cyfeiriad myfyrwyr cyn dechrau ar eu haddysg uwch yw'r sail wrth nodi o ble mae myfyrwyr yn hanu. Efallai fod rhai nad ydynt yn hanu o Gymru ac sy'n dysgu drwy'r Gymraeg wedi eu magu yng Nghymru ond wedi symud i wlad arall cyn dechrau ar eu haddysg uwch.

- Yn sefydliadau Cymru, derbyniodd 9% o fyfyrwyr o Gymru mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru rywfaint o'u haddysg drwy'r Gymraeg, a derbyniodd 1% o fyfyrwyr o'r tu allan i Gymru rhywfaint o'u haddysg drwy'r Gymraeg.
- Ychydig iawn o fyfyrwyr o'r tu allan i Gymru a astudiodd 120 o gredydau drwy'r Gymraeg.

## Adran B: Pynciau modiwlau

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'r dadansoddiad fesul pwnc o'r myfyrwyr a aeth i brifysgol yng Nghymru ac a astudiodd drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfrifir y pynciau y mae myfyriwr yn eu hastudio fesul modiwl, yn wahanol i ddata eraill a gyhoeddir am addysg uwch. Mae hyn oherwydd bod gwybodaeth am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei chasglu fesul modiwl.

Gall myfyriwr astudio modiwlau mewn nifer o bynciau, a hyd yn oed mwy nag un pwnc mewn modiwl unigol. Gallai unrhyw gyfuniad o bynciau a modiwlau gynnwys rhywfaint o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Golyga hyn nad yw'n bosibl adrodd am nifer y pynciau mewn ffordd sy'n gyson â'r cyfansymiau cyfrwng Cymraeg mewn mannau eraill ond sydd hefyd yn fanwl gywir o ran canran y myfyrwyr sy'n astudio pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym wedi dewis gwneud y canrannau'n fanwl gywir.

Mae pynciau yr adroddir amdanynt mewn cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn yn rhannu pob myfyriwr ar draws y pynciau maen nhw'n eu hastudio. Pe bai cwrs myfyriwr yn golygu ei fod yn treulio hanner ei amser yn astudio Mathemateg a'r hanner arall yn astudio'r Gyfraith, byddai hynny'n cyfrif fel hanner myfyriwr (0.5) yn astudio Mathemateg a hanner myfyriwr yn astudio'r Gyfraith. Ar ôl i bynciau myfyriwr gael eu cyfrifo mewn cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn, byddwn yn gwirio a gafodd unrhyw ran o bwnc ei astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, os Mathemateg yw hanner cwrs myfyriwr (0.5 Cyfwerth â Pherson Llawn), a'i fod yn astudio rhywfaint o Fathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg, yna mae hefyd yn cyfrif fel hanner myfyriwr yn astudio Mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg (0.5 Cyfwerth â Pherson Llawn).

**Tabl B.1: Pynciau modiwlau myfyrwyr mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru sy'n cael rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, 2020/21**

*Cofrestriadau (Cyfwerth â Pherson Llawn) a chanrannau*

| | Rhywfaint o addysg gyfrwng Cymraeg | Canrannau (%) | Pob cofrestriad |
|---|---|---|---|
| Meddygaeth a deintyddiaeth | 110 | *2%* | 4,475 |
| Pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth | 720 | *4%* | 16,045 |
| Gwyddorau chwaraeon a biolegol | 345 | *3%* | 10,455 |
| Seicoleg | 140 | *2%* | 7,640 |
| Gwyddorau milfeddygol | 0 | *0%* | 40 |
| Amaethyddiaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig | 65 | *5%* | 1,280 |
| Gwyddorau ffisegol | 15 | *0%* | 3,900 |
| Gwyddorau mathemategol | 40 | *1%* | 3,070 |
| Peirianneg a thechnoleg | 150 | *2%* | 9,620 |
| Cyfrifiadura | 245 | *3%* | 8,540 |
| Daearyddiaeth, Astudiaethau Daear ac Amgylcheddol | 55 | *2%* | 3,170 |
| Pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio | 80 | *3%* | 2,420 |
| Gwyddorau cymdeithasol | 1,070 | *7%* | 15,690 |
| Y gyfraith | 110 | *2%* | 6,685 |
| Busnes a rheolaeth | 330 | *2%* | 21,140 |
| Cyfryngau, Newyddiaduraeth a Chyfathrebu | 75 | *3%* | 2,530 |
| Astudiaethau iaith ac ardal | 390 | *5%* | 7,300 |
| Astudiaethau Cymraeg a Chymreig | 325 | *96%* | 335 |
| Iaith Geltaidd arall | 35 | *38%* | 85 |
| Iaith Ewropeaidd arall | 5 | *0%* | 1,590 |
| Astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol | 170 | *4%* | 3,960 |
| Dylunio, Celfyddydau Creadigol a Pherfformio | 1,120 | *15%* | 7,240 |
| Drama | 135 | *17%* | 780 |
| Cerddoriaeth | 40 | *3%* | 1,505 |
| Sinemateg a Ffotograffiaeth | 100 | *10%* | 970 |
| Addysg ac addysgu | 1,315 | *17%* | 7,540 |
| Hyfforddiant athrawon | 675 | *30%* | 2,255 |
| Astudiaetha mewn Addysg | 640 | *12%* | 5,285 |
| Astudiaethau cyfun a chyffredinol | 115 | *5%* | 2,435 |
| Pob pwnc | 6,655 | *5%* | 145,170 |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA drwy Lywodraeth Cymru*

[Gweld y data]

- Addysg sydd â'r nifer mwyaf o fyfyrwyr yn astudio rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg (1,315), ond y modylau lle mae'r gyfran fwyaf o fyfyrwyr yn derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yw Astudiaethau Cymraeg a Chymreig (96%) a Iaith Geltaidd arall (30%).
- Roedd 325 o'r myfyrwyr a dderbyniodd rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2020/21 yn ei derbyn drwy fodiwl a oedd wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer addysgu Astudiaethau Cymraeg a Chymreig.

- Y pwnc mwyaf poblogaidd oedd Busnes a Rheolaeth, ond 2% yn unig o'r myfyrwyr a oedd yn astudio'r modylau hyn a dderbyniodd unrhyw addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gwyddorau milfeddygol oedd y maes pwnc â'r gyfran leiaf o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac roedd Iaith Ewropeaidd arall a Gwyddorau Ffisegol yn dilyn hyn gyda chyfrannau tebyg.

## Adran C: Siaradwyr Cymraeg

Mae HESA yn casglu data gan bob myfyriwr sydd wedi cofrestru mewn prifysgol yng Nghymru lle mae'r myfyriwr yn preswylio fel arfer yng Nghymru (cyn astudio). Mae'r data yn cofnodi a yw'r myfyriwr yn ystyried ei hun yn siaradwr Cymraeg ac a yw'n rhugl ai peidio. Mae ansawdd y data ar draws sefydliadau'n amrywio, ac mae gan ambell sefydliad gyfran sylweddol fwy o gofnodion 'anhysbys'. Er hyn, gan fod cyfradd gyffredinol y cofnodion 'anhysbys' yn llai na'r blynyddoedd cynharach, mae'n fwy defnyddiol erbyn hyn ar gyfer dadansoddiadau.

**Tabl C.1: Gallu myfyrwyr o Gymru sydd mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru i siarad Cymraeg, yn ôl y swm a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg, 2020/21**

*Cofrestriadau*

| | Rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg | o leiaf 5 credyd yn Gymraeg | o leiaf 40 credyd yn Gymraeg | o leiaf 80 credyd yn Gymraeg | o leiaf 120 credyd yn Gymraeg | Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg | Pob Cofrestriad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Siaradwr Cymraeg rhugl | 3,110 | 2,975 | 2,170 | 1,380 | 800 | 7,230 | 10,345 |
| Siaradwr Cymraeg ond ddim yn rhugl | 995 | 815 | 330 | 95 | 55 | 9,490 | 10,485 |
| Ddim yn siarad Cymraeg | 2,300 | 1,645 | 230 | 40 | 30 | 45,745 | 48,050 |
| Anhysbys | 160 | 120 | 50 | 0 | 0 | 7,130 | 7,290 |
| Pob myfyriwr | 6,570 | 5,555 | 2,780 | 1,515 | 890 | 69,600 | 76,170 |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA drwy Lywodraeth Cymru*

[Gweld y data]

- Roedd nifer y myfyrwyr a dderbyniodd rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn debyg iawn ymhlith siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rheini nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl. Astudiodd 3,110 o siaradwyr Cymraeg rhugl rywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2020/21, a derbyniodd 3,300 o fyfyriwr nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg, neu a oedd yn siarad Cymraeg ond nad oeddent yn rhugl yn yr iaith, rywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Roedd 30 o'r myfyrwyr yn astudio o leiaf 120 credyd yn Gymraeg er yr adroddwyd nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod rhai problemau â'r data o hyd.

**Tabl C.2: Prifysgol a gallu i siarad Cymraeg myfyrwyr o Gymru mewn prifysgolion yng Nghymru, 2020/21**

*Cofrestriadau*

| | Siaradwr Cymraeg rhugl | Siaradwr Cymraeg ond ddim yn rhugl | Ddim yn siarad Cymraeg | Anhysbys | Pob cofrestriad |
|---|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Bangor | 1,525 | 585 | 1,920 | 0 | 4,030 |
| Prifysgol Glyndŵr | 465 | 785 | 3,005 | 85 | 4,345 |
| Prifysgol Aberystwyth | 870 | 550 | 1,450 | 40 | 2,905 |
| Drindod Dewi Sant | 1,045 | 1,210 | 5,490 | 240 | 7,985 |
| Prifysgol Abertawe | 1,650 | 1,555 | 6,675 | 0 | 9,880 |
| Prifysgol De Cymru | 1,275 | 1,770 | 11,245 | 140 | 14,430 |
| Prifysgol Caerdydd | 1,670 | 1,630 | 7,490 | 20 | 10,805 |
| Prifysgol Fetropolitan Caerdydd | 875 | 855 | 4,465 | 0 | 6,195 |
| Brifysgol Agored | 660 | 1,280 | 5,715 | 6,635 | 14,290 |
| Pob sefydliad addysg uwch | 10,030 | 10,220 | 47,455 | 7,165 | 74,870 |
| Grwp Llandrillo Menai | 275 | 230 | 410 | 125 | 1,040 |
| Grwp NPTC | 25 | 30 | 140 | 0 | 195 |
| Coleg Gwyr Abertawe | 10 | 5 | 45 | 0 | 65 |
| Pob sefydliad | 10,345 | 10,485 | 48,050 | 7,290 | 76,170 |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)* [Gweld y data]

- Prifysgol Bangor (38%), Prifysgol Aberystwyth (30%) a Phrifysgol Abertawe (17%) oedd â'r cyfrannau mwyaf o fyfyrwyr sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl allan o bob sefydliad addysg uwch. Fodd bynnag, ym Mhrifysgol Caerdydd oedd y nifer uchaf o fyfyrwyr sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl (1,670). Dim ond 5% o fyfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru oedd yn siarad Cymraeg yn rhugl.
- Canran y myfyrwyr ym Mhrifysgol Glyndŵr sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl yw 11%, a Phrifysgol De Cymru oedd agosaf at hyn (9%).
- Yn gyffredinol, roedd bron i 63% o fyfyrwyr a oedd yn hanu o Gymru ddim yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Wrth ystyried sefydliadau addysg uwch, ym Mhrifysgol De Cymru oedd y gyfran uchaf o fyfyrwyr nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg (78%), ac yna Prifysgol Fetropolitan Caerdydd (72%) a Phrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Glyndŵr gyda 69% o fyfyrwyr yn hanu o Gymru ond nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg.

## Adran D: Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA)

Mae myfyriwr Addysg Gychwynnol i Athrawon (Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon o'r blaen) yn cael ei gyfrif fel un sy'n gallu addysgu'n ddwyieithog, sydd wedi cwblhau cwrs a gynlluniwyd er mwyn galluogi myfyrwyr i addysgu yn Gymraeg ac yn Saesneg, a allai fod wedi arwain at dystysgrif ffurfiol ar gyfer addysg ddwyieithog, ond nid o reidrwydd.

### Tabl D.1: Lefel ysgol myfyrwyr yn cwblhau cyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru sy'n arwain at addysgu dwyieithog

*Qualifiers from ITE courses*

| | | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Primary School | Trained to teach in Welsh | 160 | 150 | 145 | 145 | 115 | 110 | 100 | 130 | 145 |
| | Not trained to teach in Welsh | 510 | 520 | 480 | 495 | 525 | 495 | 445 | 460 | 495 |
| Secondary School | Trained to teach in Welsh | 100 | 145 | 115 | 80 | 80 | 75 | 70 | 95 | 125 |
| | Not trained to teach in Welsh | 705 | 610 | 570 | 450 | 425 | 375 | 340 | 345 | 505 |
| All | Trained to teach in Welsh | 255 | 300 | 260 | 225 | 195 | 185 | 170 | 225 | 270 |
| | Not trained to teach in Welsh | 1,210 | 1,130 | 1,050 | 945 | 950 | 870 | 785 | 805 | 1,000 |

*Source: HESA Student Record via Welsh Government*

[Gweld y data]

- Cwblhaodd 270 o fyfyrwyr gwrs AGA a wnaeth eu hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2020/21.
- Fe wnaeth 21% o'r rhai a gwblhaodd gwrs AGA hyfforddi i addysgu'n ddwyieithog yn 2020/21, sydd 1 pwynt canran yn llai nag yn 2019/20.
- Yn 2020/21, roedd 23% o'r athrawon cynradd dan hyfforddiant a 20% o'r athrawon uwchradd dan hyfforddiant yn gallu addysgu'n ddwyieithog.

## Tabl D.2: Y math o radd sydd gan fyfyrwyr sy’n cwblhau cyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru sy’n arwain at addysgu dwyieithog

*Myfyrwyr cymwysedig cyrsiau AGA*

| | | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TAR | Wedi hyfforddi i addysgu yn Gymraeg | 185 | 215 | 185 | 165 | 155 | 135 | 120 | 175 | 230 |
| | Heb hyfforddi i addysgu yn Gymraeg. | 980 | 900 | 840 | 735 | 735 | 680 | 610 | 620 | 845 |
| Gradd Arall | Wedi hyfforddi i addysgu yn Gymraeg | 70 | 85 | 80 | 60 | 45 | 50 | 50 | 50 | 40 |
| | Heb hyfforddi i addysgu yn Gymraeg. | 230 | 225 | 210 | 210 | 215 | 225 | 210 | 210 | 215 |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA drwy Lywodraeth Cymru*

[Gweld y data]

- Yn 2020/21, cafodd bron 86% o’r myfyrwyr a gwblhaodd gyrsiau AGA ac a oedd yn gallu addysgu’n ddwyieithog Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR).
- Cymhwysodd 21% o’r graddedigion AGA i addysgu’n ddwyieithog yn 2019/20.

## Tabl D.3: Gallu myfyrwyr cyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru i siarad Cymraeg yn ôl lefel eu gallu i addysgu drwy’r Gymraeg (hunanasesiad), 2020/21

*Myfyrwyr cymwysedig cyrsiau AGA*

| | Siaradwr Cymraeg rhugl | Ddim yn siarad Cymraeg yn rhugl | Pob cofrestriad |
|---|---|---|---|
| Wedi hyfforddi i addysgu yn Gymraeg | 225 | 45 | 270 |
| Heb hyfforddi i addysgu yn Gymraeg. | 105 | 865 | 1,000 |
| Pob Myfyriwr | 330 | 910 | 1,270 |

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA drwy Lywodraeth Cymru*

[Gweld y data]


- Yn 2020/21, roedd 69% o’r siaradwyr Cymraeg rhugl a gwblhaodd gyrsiau AGA wedi hyfforddi i addysgu drwy’r Gymraeg.
- Nid oedd 16% o’r myfyrwyr a oedd yn hyfforddi i addysgu drwy’r Gymraeg yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae hyn yn awgrymu bod rhai problemau â’r data o hyd.

## Adran E: Staff

Mae'r adran hon yn cynnwys nifer y staff academaidd sy'n cael ei gyflogi mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, ac yn nodi a ydynt yn addysgu, neu'n gallu addysgu, drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Ar y dechrau, roedd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ariannu swyddi academaidd er mwyn hyrwyddo addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ers 2019/20, mae'r Coleg yn cefnogi sefydliadau â grantiau penodol i ddatblygu darpariaeth addysg uwch, gan gynnwys cynllunio o ran staff

Mae'r holl ffigurau yn yr adran hon yn cael eu cyfleu fel cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn oni nodir yn wahanol. Mae rhagor o wybodaeth am staff mewn prifysgolion yng Nghymru i'w gweld ar StatsCymru.

**Siart E.1: Cyfrifiadau cyfwerth â pherson llawn â chyfwerth ag amser llawn staff academaidd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**




[Gweld y data]

- Roedd nifer y staff a oedd yn gallu addysgu yn Gymraeg 35% yn uwch yn 2020/21 o gymharu â 2011/12.
- Fe wnaeth nifer y staff sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ostwng ychydig yn 2020/21, o 1,135 yn 2019/20 i 1,060 yn 2020/21.

**Tabl E.1: Staff sefydliadau addysg uwch a oedd yn addysgu, neu a oedd yn gallu addysgu, drwy gyfrwng y Gymraeg, 2020/21 (a)**

*Staff (Cyfwerth â Pherson Llawn)*

| | Yn addysgu drwy'r Gymraeg | Yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (a) | Nid yw'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | Pob cofrestriad |
|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Bangor | 230 | 295 | 585 | 995 |
| Prifysgol Glyndŵr | 0 | 10 | 175 | 195 |
| Prifysgol Aberystwyth | 120 | 155 | 535 | 695 |
| Drindod Dewi Sant | 35 | 255 | 425 | 700 |
| Prifysgol Abertawe | 45 | 70 | 1,040 | 1,665 |
| Prifysgol De Cymru | 35 | 95 | 1,425 | 1,665 |
| Prifysgol Caerdydd | 95 | 135 | 3,245 | 3,380 |
| Prifysgol Fetropolitan Caerdydd | 20 | 40 | 660 | 740 |
| Pob SAU yng Nghymru ac eithrio'r Brifysgol Agored | 575 | 1,060 | 8,085 | 10,045 |

*Ffynhonnell: Cofnod staff HESA drwy Lywodraeth Cymru*

(a) Mae'r nifer sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnwys y rhai hynny sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

[Gweld y data]

- Yn 2020/21, Prifysgol Bangor oedd â'r nifer mwyaf o staff academaidd a oedd yn **gallu** addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (295), ac yno hefyd roedd y nifer mwyaf a oedd **yn addysgu mewn gwirionedd** drwy gyfrwng y Gymraeg (230).
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant oedd â'r gyfran fwyaf (37%) o staff academaidd a oedd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Prifysgolion Caerdydd ac Abertawe oedd â'r gyfran leiaf (4%) o staff a oedd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Tabl E.2: Staff sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu sy'n gallu gwneud hynny mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru (a)

*Staff (Cyfwerth â Pherson Llawn)*

| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | 895 | 960 | 960 | 1,135 | 1,200 | 1,090 | 1,170 | 1,135 | 1,060 |
| Nid yw'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | 6,520 | 7,710 | 8,795 | 7,870 | 8,300 | 8,290 | 7,965 | 8,185 | 8,085 |
| Ni ofynnwyd am y wybodaeth eto | 2,150 | 1,470 | 650 | 660 | 740 | 875 | 1,130 | 840 | 895 |
| Cyfanswm | 9,565 | 10,140 | 10,410 | 9,670 | 10,240 | 10,255 | 10,265 | 10,165 | 10,045 |
| Yn addysgu drwy'r Gymraeg | 635 | 590 | 625 | 590 | 635 | 635 | 605 | 600 | 575 |
| Ddim yn addysgu drwy'r Gymraeg | 6,860 | 8,465 | 8,810 | 7,325 | 7,665 | 7,765 | 6,180 | 6,805 | 6,470 |
| Ni ofynnwyd am y wybodaeth eto | 2,075 | 1,085 | 975 | 1,755 | 1,945 | 1,855 | 3,475 | 2,755 | 2,995 |
| Cyfanswm | 9,565 | 10,140 | 10,410 | 9,670 | 10,240 | 10,255 | 10,265 | 10,165 | 10,045 |

*Ffynhonnell: Cofnod staff HESA drwy Lywodraeth Cymru*

(a) Mae'r nifer sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnwys y rhai hynny sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

[Gweld y data]

- Yn 2020/21 fe wnaeth cyfanswm y staff academaidd a oedd yn **addysgu** drwy gyfrwng y Gymraeg ostwng 4% o 600 yn 2019/20 i 575 yn 2020/21.
- Gwelwyd gostyngiad o 7% yn nifer y staff academaidd a oedd yn **gallu** addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 1,135 yn 2019/20 i 1,060 yn 2020/21.
- Roedd 54% o'r staff a oedd yn gallu addysgu yn Gymraeg yn darparu rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2020/21, o gymharu â 53% yn 2019/20.
- Noder: mae'r ffigurau hyn ar gyfer 2017/18 yn wahanol i'r rheini sydd ar wefan StatsCymru. Canfuwyd gwall yn y data a ddarparwyd gan HESA i Lywodraeth Cymru ar gyfer Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Abertawe. Cafwyd ffigurau lefel uchel wedi'u cywiro yn uniongyrchol gan y prifysgolion at ddibenion y bwletin hwn. Fodd bynnag, cafodd y dadansoddiad manwl o'r ffigurau hyn sydd ar StatsCymru ei ddarparu gan HESA ac nid yw wedi'i ddiwygio eto.

**Tabl E.3: Canolfan gost staff academaidd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, 2020/21**

*Staff (Cyfwerth â Pherson Llawn)*

| | Yn addysgu drwy'r Gymraeg | Ddim yn addysgu drwy'r Gymraeg | Ni ofynnwyd am y wybodaeth eto | Pob cofrestriad | Canran fesul Canolfan Gost |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau academaidd | 10 | 30 | 90 | 130 | 9% |
| Astudiaethau gweinyddol, busnes a chymdeithasol | 40 | 955 | 395 | 1,395 | 3% |
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth a gwyddorau milfeddygol | 10 | 90 | 20 | 125 | 8% |
| Pensaernïaeth a chynllunio | 0 | 105 | 10 | 120 | 2% |
| Gwyddorau biolegol, mathemategol a ffisegol | 25 | 870 | 315 | 1,215 | 2% |
| Dylunio, celfyddydau creadigol a pherfformio | 55 | 565 | 405 | 1,025 | 5% |
| Addysg | 175 | 340 | 105 | 620 | 28% |
| Peirianneg a thechnoleg | 10 | 580 | 600 | 1,190 | 1% |
| Dyniaethau ac astudiaethau sy'n seiliedig ar iaith ac archaeoleg | 140 | 475 | 165 | 775 | 18% |
| Y Gyfraith, Economeg a Gwleidyddiaeth | 25 | 330 | 135 | 495 | 5% |
| Meddygaeth, deintyddiaeth ac iechyd | 85 | 2,130 | 750 | 2,960 | 3% |
| Cyfanswm | 575 | 6,470 | 2,995 | 10,045 | 6% |

*Ffynhonnell: Cofnod staff HESA drwy Lywodraeth Cymru*

[Gweld y data]

- Roedd y nifer mwyaf o staff a oedd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym meysydd Addysg, a Dyniaethau, Ieithoedd ac Archaeoleg. Gyda'i gilydd, roedd y canolfannau cost hyn yn gyfrifol am fwy na hanner o gyfanswm y staff a oedd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Methodoleg

Nodiadau pwysig ynghylch sut y cyfrifwyd yr ystadegau. Mae gwybodaeth fwy manwl am y termau a ddefnyddir yn y bwletin hwn ar gael yn yr adran Ddiffiniadau.

## Ffynhonnell y data

Daw'r rhan fwyaf o'r data sydd yn y bwletin hwn o Gofnod Myfyrwyr a Chofnod Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

Mae crynodeb o'r broses o gasglu data Myfyrwyr ar gyfer 2020/21 sy'n cwmpasu amserlenni, dilysu a rheolau busnes a phrosesau gwirio ar gael ar wefan HESA. Mae crynodeb tebyg i'w weld ar gyfer y broses o gasglu data staff.

## Cwmpas

### Myfyrwyr

Mae'r ystadegau'n cwmpasu'r myfyrwyr sy'n rhan o boblogaeth gofrestru safonol Addysg Uwch HESA, neu ei phoblogaeth cymwysterau a enillwyd mewn Addysg Uwch, yn unig. Mae rhagor o wybodaeth am y poblogaethau hyn ar gael yn y diffiniadau o fyfyrwyr ar wefan HESA.

Bob tro y defnyddir y gair 'myfyrwyr' yn y bwletin hwn rydym yn cyfeirio at 'gofrestriadau myfyrwyr'. Mae hyn yn gyfrif o bawb sydd wedi cofrestru ar gyfer cwrs. Mewn achosion anghyffredin, lle mae myfyriwr wedi cofrestru ar gyfer dau gwrs gwahanol yn yr un flwyddyn, byddai'r myfyriwr hwnnw'n cael ei gyfrif ddwywaith.

Mae dadansoddiad blaenorol wedi dangos bod cofrestriadau amser llawn mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru lai nag 1% yn uwch na niferoedd y myfyrwyr amser llawn; a bod cofrestriadau rhan-amser lai na 2% yn uwch na niferoedd y myfyrwyr rhan-amser.

Mae pob cyfeiriad at 'fyfyrwyr cymwysedig' yn y bwletin hwn yn cyfeirio at 'y cymwysterau a enillwyd'. Mewn achosion anghyffredin, lle mae myfyriwr yn cael dau gymhwyster gwahanol yn yr un flwyddyn, byddai'r myfyriwr hwnnw'n cael ei gyfrif ddwywaith.

### Staff

Mae pob tabl sydd yn y bwletin hwn yn seiliedig ar boblogaeth contractau staff academaidd HESA, sy'n cynnwys y contractau hynny a oedd yn weithredol ar 1 Rhagfyr o fewn y cyfnod adrodd.

Diffinnir staff academaidd fel gweithwyr proffesiynol academaidd sy'n gyfrifol am gynllunio, cyfarwyddo ac ymgymryd â dysgu ac ymchwil academaidd mewn Sefydliadau Addysg Uwch.

Yn dilyn adolygiad HESA, newidiodd y fethodoleg a ddefnyddir i leoli gweithwyr proffesiynol academaidd yn 2012/13. Achosodd hyn wahaniaeth sylweddol yng nghanran y staff a ddynodwyd fel "gwybodaeth heb ei cheisio eto" yn y maes yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg/yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Y strategaeth ynglŷn â thalgrynnu

Mae'r dull o gyflwyno ffigurau yn y Bwletin Ystadegol hwn yn dilyn egwyddorion strategaeth dalgrynnu HESA. Bwriedir i'r strategaeth atal achosion o ddatgelu gwybodaeth bersonol am unrhyw unigolyn. Yn y strategaeth hon, caiff pob rhif ei dalgrynnu i'r 5 agosaf. Dyma grynodeb o'r strategaeth:

- Mae rhifau sy'n llai na 3 yn cael eu talgrynnu i 0.
- Mae pob rhif arall yn cael ei dalgrynnu i'r lluosrif o 5 agosaf.

Mae cyfansymiau hefyd yn destun y fethodoleg dalgrynnu hon; o ganlyniad, efallai na fydd cyfanswm y rhifau ym mhob rhes neu golofn yn cyfateb yn union i'r cyfanswm a ddangosir. Mae'r canrannau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio niferoedd crai manwl ac wedi'u talgrynnu i 0 pwynt degol.

# Diffiniadau

## Diffiniadau ar gyfer adrannau A i C – Myfyrwyr

### Swm a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r swm a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn cyflwyno gwybodaeth ynglŷn â faint o'i addysg y mae myfyriwr wedi'i dderbyn drwy gyfrwng y Gymraeg y flwyddyn honno. Mae'n egluro faint o bob modiwl a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Pe bai myfyriwr yn astudio hanner modiwl 20 credyd yn Gymraeg, byddai hynny'n cael ei gyfrif fel 10 credyd. Mae'r categorïau rhywfaint/5/40/80 hefyd yn gorgyffwrdd. Er enghraifft, mae pawb sydd wedi astudio o leiaf 40 credyd yn Gymraeg hefyd yn cael ei gynnwys fel un sydd wedi astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg.

### Gradd gyntaf

Mae gradd gyntaf yn cyfeirio at yr hyn y gellid ei ystyried fel y cwrs israddedig "safonol". **Nid** yw'n golygu mai dyma'r radd israddedig gyntaf y mae myfyriwr wedi'i hastudio.

Mae'n cynnwys graddau cyntaf pa un a ydynt yn arwain at gymhwyster i gofrestru neu ymarfer â chorff rheoleiddio statudol Iechyd neu Ofal Cymdeithasol neu Filfeddygol ai peidio, graddau cyntaf â statws athro cymwysedig/cofrestru â'r Cyngor Addysgu Cyffredinol, graddau cyntaf uwch, graddau cyntaf a sicrheir yr un pryd â diploma a graddau cyntaf rhyngosod.

### Cyfwerth ag amser llawn (FTE)

Mae FTE yn cyflwyno data myfyrwyr yn nhermau'r hyn sy'n gyfwerth â myfyrwyr amser llawn. Mae myfyriwr cyd-anrhydedd sydd â hanner ei gwrs yn fathemateg, yn hanner yr hyn sy'n gyfwerth â myfyriwr Mathemateg anrhydedd sengl (0.5 FTE). Mae myfyriwr rhan-amser y byddai ei gwrs yn para 6 blynedd yn hytrach na 3 yn cael ei gyfrif fel hanner yr hyn sy'n gyfwerth â myfyriwr amser llawn (0.5 FTE).

### Cyfwerth â pherson llawn (FPE)

Mae cyfrifiad cyfwerth â pherson llawn yn rhannu myfyrwyr rhwng y gwahanol ddulliau astudio, beth bynnag yw cyfanswm yr amser y mae myfyriwr yn astudio. Mae myfyriwr cyd-anrhydedd rhan-amser, sy'n astudio hanner Mathemateg, yn dal i gael ei gyfrif fel hanner myfyriwr Mathemateg (0.5 FPE). Mewn cyfrifiad FTE byddai'r myfyriwr cyd-anrhydedd hwnnw'n cael ei gyfrif fel hanner myfyriwr Mathemateg (0.25 FTE), pe bai cyfanswm yr amser y mae'n astudio hefyd yn hanner yr hyn sy'n gyfwerth â myfyriwr amser llawn.

### Rhywedd

Mae rhyweddau eraill (anneuaidd) yn cael eu cynnwys yn y cyfansymiau.

### Lefel Astudio

A yw myfyriwr yn astudio cwrs ôl-radd, gradd gyntaf israddedig neu radd israddedig arall. Nid yw myfyrwyr ôl-ddoethurol yn cael eu cynnwys.

### Dull Astudio

A yw myfyriwr yn astudio ar sail amser llawn neu'n rhan-amser. Fel arfer mae'n ofynnol i fyfyrwyr amser llawn fynychu sefydliad am gyfnodau sy'n gwneud cyfanswm o 24 wythnos o leiaf ym mlwyddyn y rhaglen astudio. Yn ystod y cyfnod hwn, disgwylir fel arfer i fyfyrwyr ymgymryd â chyfnodau astudio, dysgu neu brofiad gwaith sy'n gyfanswm o 21 awr yr wythnos o leiaf ar gyfartaledd.

### Graddau israddedig eraill

Mae graddau israddedig eraill yn cynnwys nodau cymhwyster is na lefel gradd, megis: Graddau Sylfaen; diplomâu mewn AU â chymhwyster i gofrestru i ymarfer â chorff rheoleiddio Iechyd neu Ofal Cymdeithasol; Diploma Cenedlaethol Uwch (HND); Tystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC); Diploma Addysg Uwch; Tystysgrif Addysg Uwch; cyrsiau sylfaen ar lefel addysg uwch; NVQ/SVQ lefelau 4 a 5; diplomâu a thystysgrifau ôl-radd ar lefel israddedig; cymwysterau proffesiynol ar lefel israddedig; diplomâu a thystysgrifau israddedig eraill gan gynnwys cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol ôl-gofrestru; cymwysterau addysg uwch ffurfiol eraill is na safon gradd; credydau israddedig sefydliadol a dim cymwysterau israddedig ffurfiol.

### Myfyrwyr sy’n hanu o Gymru

Y myfyrwyr sydd wedi’u categoreiddio fel myfyrwyr sy’n hanu o Gymru yw’r rhai yr oedd eu cod post cartref yng Nghymru pan oeddent yn mynd i’w sefydliad addysg uwch am y tro cyntaf.

### Blwyddyn

Blynyddoedd academaidd yw’r blynyddoedd y cyfeirir atynt, o 1 Awst i 31 Gorffennaf.

## Diffiniadau ar gyfer Adran D – Addysg Gychwynnol i Athrawon

### Y gallu i addysgu’n ddwyieithog

Diffinnir myfyrwyr fel rhai sy’n ‘gallu addysgu yn ddwyieithog’ os ydynt yn cymryd rhan mewn cwrs sydd naill ai’n arwain at dystysgrif addysg ddwyieithog ffurfiol, neu nad yw’n arwain at dystysgrif, ond sydd wedi’i gynllunio i alluogi myfyrwyr i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Y math o radd

Mae TAR yn cynnwys Tystysgrif Addysg i Raddedigion, Tystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion a’r Diploma Proffesiynol mewn Addysg. Cymhwyster lefel gradd Meistr yw’r Dystysgrif Addysg i Raddedigion, ond nid yw’r Dystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion yn gymhwyster lefel gradd Meistr. Mewn rhai achosion, gallai myfyriwr ddechrau astudio cwrs ôl-radd, ond gadael â chymhwyster israddedig.

Mae mwyafrif y cyrsiau ‘Gradd Arall’ ar lefel gradd Baglor, gan gynnwys elfen addysgu sy’n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC).

### Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA)

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) neu Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon (HAGA) oedd hen enwau Addysg Gychwynnol i Athrawon. Mae’n cwmpasu pob llwybr y bydd rhywun yn ei ddilyn i ddod yn athro – gan ennill SAC. Mae’r bwletin hwn yn cwmpasu pobl sy’n dod yn athrawon drwy gyrsiau Addysg Uwch ffurfiol.

### Statws Athro Cymwysedig (SAC)

Rhaid bod â Statws Athro Cymwysedig er mwyn addysgu mewn ysgol yng Nghymru. Mae SAC yng Nghymru yn wahanol i SAC yn Lloegr neu gofrestr y Cyngor Addysgu Cyffredinol yng Ngogledd Iwerddon a’r Alban.

### Lefel ysgol

Mae ‘lefel ysgol’ yn nodi a yw’r cwrs yn canolbwyntio ar hyfforddi athrawon ysgol gynradd neu uwchradd. Yn aml, gelwir hyn yn ‘gyfnod ysgol’. Pan fydd athro wedi cymhwyso, efallai y bydd yn addysgu ystod oedrannau wahanol i’r un y bu’n hyfforddi ar ei chyfer i gychwyn.

## Diffiniadau ar gyfer Adran E - Staff

### Cyfwerth ag amser llawn (FTE)

Cofnodir cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn y contract ac mae’n mesur yr hyn sy’n gyfwerth ag amser llawn yn ystod y cyfnod adrodd rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf.

### Cyfwerth â pherson llawn (FPE)

Gall unigolion fod â mwy nag un contract gyda sefydliad a gall pob contract gynnwys mwy nag un gweithgaredd gwahanol. Mae cyfrifiadau’r staff wedi cael eu rhannu ymhlith eu gweithgareddau yn unol â’r cyfrifiad cyfwerth ag amser llawn sydd wedi’i ddatgan ar gyfer pob gweithgaredd. Mae hyn yn arwain at gyfrif cyfwerth â pherson llawn. Mae cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn y staff yn cael eu seilio ar y gweithgareddau contract a oedd yn weithredol ar 1 Rhagfyr yn y cyfnod adrodd.

### Staff sy’n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae’r tabl contractau’n cynnwys manylion am y staff sy’n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae nifer y staff sy’n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cyfrif y staff academaidd sydd ag o leiaf un contract academaidd sy’n cynnwys rhywfaint o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Mae'r adran hon yn darparu crynodeb o wybodaeth am yr allbwn hwn yn ôl pum dimensiwn o ansawdd, sef: Perthnasedd, Cywirdeb, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurder, a Chymaroldeb. Mae HESA (sef ffynhonnell y data) yn cyhoeddi Ystadegau Gwladol ei hun ac mae'n rhoi manylion am ansawdd ei data ar ei gwefan.

### Perthnasedd

Gwnaethpwyd newidiadau i'r bwletin yn dilyn adborth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a swyddogion polisi'r Gymraeg. Yn 2011 gwnaethpwyd newidiadau i gynnwys y bwletin yn dilyn adborth gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Hefyd, cynhwyswyd y bwletin mewn ymgynghoriad ar ystadegau addysgol, heb ysgogi unrhyw geisiadau allweddol am newidiadau.

Defnyddir yr ystadegau yn Llywodraeth Cymru a'r tu allan iddi er mwyn monitro tueddiadau addysgol ac fel llinell sylfaen ar gyfer dadansoddiadau pellach o'r data sylfaenol. Mae'r prif ddefnyddwyr yn cynnwys:

- Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn y Senedd;
- Swyddogion yn Llywodraeth Cymru;
- Adrannau eraill y llywodraeth;
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;
- Sefydliadau Addysg Uwch a chyrff cynrychioladol;
- Myfyrwyr, ymchwilwyr ac academyddion;
- Dinasyddion unigol, cwmnïau preifat a'r cyfryngau;

Defnyddir yr ystadegau hyn mewn ffyrdd amrywiol e.e.:

- Fel sail i'r broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â'r polisi addysg yng Nghymru ac fel sail i'r strategaethau presennol, er enghraifft, y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

### Cywirdeb

### Newidynnau sy'n cael eu hunanasesu

Mae llawer o feysydd allweddol HESA sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn dibynnu ar asesiad y myfyriwr neu'r brifysgol. Mae'r dangosydd WELSSP ar gyfer gallu'r myfyriwr i siarad Cymraeg yn cael ei hunanasesu gan y myfyriwr a gall y safon ar gyfer rhuglder newid o'r naill berson i'r llall. Nodir arwyddion nad yw'r dangosydd yn ddibynnol bob amser dan dabl D.1.

Defnyddir preswylfan myfyriwr yn hytrach na chofnod o'i genedl. Fodd bynnag, nid yw'n wir bob tro bod myfyriwr o Gymru yn preswylio yng Nghymru. Gallai myfyriwr fod wedi symud o Gymru ychydig cyn cychwyn ei gwrs, a gallai hyn olygu bod myfyrwyr nad yw eu preswylfan yng Nghymru yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn yr un modd, defnyddir y maes LANGPCNT er mwyn canfod a yw myfyriwr yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a faint y mae wedi ei astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r maes hwn yn cael ei asesu gan y brifysgol a gallai prifysgolion asesu cynnwys cyfrwng Cymraeg modiwlau yn wahanol. Yn 2015/16,

darganfuwyd nad oedd rhai modiwlau cyfrwng Cymraeg yn cael eu hasesu fel rhai a oedd yn cael eu hastudio'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn y gorffennol, roedd yn ofynnol i sefydliadau naill ai gyflwyno cyfartaleddau cyrsiau neu'r gwerthoedd gwirioneddol am bob cofrestriad i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. Ar gyfer yr ystadegau a ddefnyddir yn y bwletin hwn, nid yw gwerthoedd cyfartalog y cyrsiau'n briodol. Mae'n goramcangyfrif nifer y myfyrwyr sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd bydd gan ragor o fyfyrwyr werthoedd dim-sero.

### Diwygiadau

Yn 2011 daeth i'r amlwg bod Prifysgol Cymru, Casnewydd (Prifysgol De Cymru erbyn hyn) wedi cyflwyno gwerthoedd cyfartaledd cyrsiau ar gyfer astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a oedd yn bodloni gofynion HESA, ond nad oeddent yn cynnwys y manylder sy'n ofynnol ar gyfer yr ystadegau hyn. Cafwyd data diwygiedig yn uniongyrchol gan Brifysgol Cymru, Casnewydd ar gyfer 2008/09, 2009/10, 2011/12 ac yn ddiweddarach gan Brifysgol De Cymru ar gyfer 2013/14. Er hyn, nid oedd y data diwygiedig yn cynnwys y manylder sy'n ofynnol ar gyfer y bwletin hwn, neu StatsCymru, felly maent wedi cael eu cynnwys mewn troednodiadau yn unig.

### Amseroldeb a phrydlondeb

Casglodd HESA ddata cofrestriadau myfyrwyr a staff ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/2021 o fis Awst 2020. Cynhyrchodd ei datganiad ei hun ar Gofrestriadau Myfyrwyr Addysg Uwch a'r Cymwysterau a Gafwyd mewn Sefydliadau Addysg Uwch yn Ionawr 2022 a rhyddhaodd ei chyhoeddiad diweddaraf am Staff mewn Addysg Uwch ym mis Chwefror 2022. Mae'r bwletin Cyfrwng Cymraeg hwn yn tynnu sylw at ddimensiwn penodol Gymreig i'r data a gesglir am fyfyrwyr a staff. Symudwyd dyddiad rhyddhau'r bwletin hwn ymlaen o fis Awst i fis Gorffennaf er mwyn gwella prydlondeb.

### Hygyrchedd ac eglurder

Rhoddir gwybod am y bwletin ystadegol hwn o flaen llaw ac yna caiff ei gyhoeddi yn adran Ystadegau gwefan Llywodraeth Cymru.

I gyd-fynd â'r bwletin hwn ceir tablau manylach yn StatsCymru, safle dosbarthu sy'n galluogi ymwelwyr i weld, addasu a chreu tablau i'w lawrlwytho.

### Cymaroldeb a chydlyniaeth

Oherwydd testun y bwletin hwn, nid oes ystadegau y gellir cymharu â hwy wedi'u cynhyrchu ar gyfer gwledydd eraill y DU. Mae'r diffiniadau'n gyson â datganiadau Addysg Uwch eraill Llywodraeth Cymru, ar wahân i'r dadansoddiadau o bynciau sy'n cael eu cyfrifo fesul modiwl yma er mwyn ymgorffori'r wybodaeth cyfrwng Cymraeg.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac sy'n golygu eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu fod yr ystadegau swyddogol yn cwrdd â'r safonau uchaf o ddibynadwyaeth, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Ceir eu dyfarnu fel statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan fraich rheoli Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Awdurdod yn ystyried os ydy'r ystadegau yn cwrdd â'r safonau uchaf o gydymffurfiad â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ychwanegu i benderfyniadau a dadlau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw i gynnal cydymffurfiad â'r safonau a ddisgwylir o Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu os yw'r ystadegau yma yn dal i gwrdd â'r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn brydlon gyda'r Awdurdod. Gall statws Ystadegau Gwladol gael ei diddymu ar unrhyw bryd pan mae'r safonau uchaf heb eu cynnal, a'i ddyfarnu unwaith eto pan mae'r safonau yn cael eu hadfer.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Fe gafodd y dangosyddion cenedlaethol hyn osodwyd gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Gwybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen ar gael yn:
https://llyw.cymru/yr-iaith-gymraeg-mewn-addysg-uwch-medi-2020-i-awst-2021

Mae tablau sy'n gysylltiedig â'r bwletin hwn ac sy'n cynnwys mwy o fanylion ar gael drwy StatsCymru, sef gwasanaeth dosbarthu data rhyngweithiol Llywodraeth Cymru.

## Y diweddariad nesaf

Gorffennaf 2023 ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22

## Rydym am gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Gallwch anfon eich sylwadau drwy e-bost i addysguwchachyllidmyfyrwyr.yst@llyw.cymru

## Y Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored, fersiwn 3.0, oni nodir yn wahanol.